# Ffilmiau Gwyrdd ar y Sgrin Fawr:

Rhaglennu ar gyfer ein Planed 2023



# Cynnwys

Cyflwyniad

Ffilmiau

Marchnata

Cefnogaeth

Hyfforddiant

Adnoddau

Canolfannau ecogyfeillgar

Partneriaid ysbrydoledig

Cysylltwch â ni

**Lluniau'r clawr:** © Fire of Love (Dogwoof), Eyes of the Orangutan (Borneo Orangutan Survival) To The End (Journeyman Pictures), Deep Sea (Fortissimo Films), Luzzo (Peccadillo Pictures) Maxima (Stand with Maxima), Fashion Reimagined (Met Films)

**Y dudalen hon**: © David Attenborough, Life on our Planet



# Cyflwyniad

Mae'r amrywiaeth o fywyd ar ein planed, o ficrobau i lewod, planhigion i bobl, yn helaeth, ac mae'r cyfan mewn perygl.

Yr argyfwng hinsawdd yw prif fater ein hoes. Sut allwn ni ddechrau gwneud gwahaniaeth? Mae ffilm yn arf bwerus sy'n ein caniatáu ni i gyfathrebu ac ysgogi pobl i weithredu. Mae sinema yn cynnig cyfle i ni gysylltu â phobl, lleoedd a bywyd gwyllt ar draws y byd naturiol.

Gyda chynaliadwyedd amgylcheddol hefyd yn un o feini prawf ein cyllid BFI FAN, rydyn ni wedi dod â detholiad o ffilmiau at ei gilydd sy'n edrych ar themâu megis ffermio cynaliadwy ac antur ôl-apocalyptaidd, wedi'i gynllunio i gefnogi rhaglennu. Detholiad yn unig sydd yn y pecyn hwn.

Gallwch weld rhestr fanwl o fwy na 280 o ffilmiau **yma**.



**Delwedd:** © Thank you for the Rain

# Ffilmiau

## Newid Hinsawdd

*Ffilmiau sy'n archwilio effaith yr argyfwng hinsawdd ar gymunedau, o ffermio yn Cenia, i'r adfocad Swedaidd, Greta Thunberg.*

1

### I am Greta (2020) PG

Ffilm ddogfen sy'n dilyn Greta Thunberg, yr actifydd hinsawdd ifanc, ar ei chrwsâd i gael pobl i wrando ar wyddonwyr sy'n ein rhybuddio ni am broblemau amgylcheddol y byd.

**Archebu: Dogwoof**

2

### To the End (2023) Dim tystysgrif

Mae pedair menyw ifanc nodedig (y gwleidydd Alexandria Ocasio-Cortez, yr actifydd Varshini Prakash, yr ysgrifennwr polisi hinsawdd Rhiana Gunn-Wright, a'r strategydd gwleidyddol Alexandra Rojas) yn cydweithio i arwain y symudiad tu cefn i ddeddfwriaeth newid hinsawdd fwyaf cynhwysfawr yn hanes U.D.A.

**Archebu: Journey Man Pictures**

3

### Thank You for the Rain (2017) Dim tystysgrif

Mae Kisilu, ffarmwr o Cenia, yn defnyddio ei gamera i ffilmio bywyd ei deulu, ei bentref ac effeithiau dinistriol newid hinsawdd.

**Archebu: thankyoufortherain.com/host-a-screening**

**Delwedd ©** To the End - Journeyman Pictures



## 4 Afire (2023) 12

*Mae grŵp o ffrindiau yn aros mewn tŷ haf ger y Môr Baltig ac mae tensiynau yn cynyddu wrth i goedwig sych gyfagos gynau ar dân.*

**Archebu:** **Curzon/Artificial Eye**

## 5 2040 (2019) PG

Mae gwneuthurwr y ffilm yn trafod ambell ateb ymarferol i broblemau amgylcheddol y byd gyda'r gobaith y bydd ei ferch, a fydd yn 21 oed yn 2040, yn wynebu dyfodol gobeithiol.

**Archebu:** **Together Films**

## 6 Hands On – Women, Climate, Change (2014) Dim tystysgrif

Mae pum menyw o bedwar cyfandir yn mynd i'r afael â newid hinsawdd drwy bolisi, protest, addysg ac arloesi. Dengys y ffilm sut mae menywod yn cyfnewid gwybodaeth a rhwydweithiau lleol i greu strategaethau ymarferol.

**Archebu:** **Concordia**

## 7 David Attenborough: A Life On Our Planet (2020) PG

One man has seen more of the natural world than any other. This unique feature documentary is his witness statement.

**Archebu:** **Altitude**

## Syniadau gweithgareddau:

Beth am lanhau'r traeth gan gadw pellter cymdeithasol, casglu sbwriel yn lleol neu blannu coed mewn cydweithrediad ag ymddiriedolaeth gadwraethol. Mae gan Into Film adnodd sy'n seiliedig ar ffilm 2040.

LCadwch lygad am gynadleddau megis Wythnos Hinsawdd Cymru Llywodraeth Cymru a mudiadau megis Climate Cymru.



**Delwedd:** © Afire - Curzon / Artificial Eye

# Bioamrywiaeth a Lles Anifeiliaid

*Ffilmiau sy'n ffocysu ar y berthynas rhwng bodau dynol ac anifeiliaid. O ddifrod troffïau hela rhyngwladol i ofal diwedd bywyd anifeiliaid fferm.*



**Delwedd** © The Champions - Firefly Films

## Syniadau gweithgareddau:

Gofynnwch i'ch cynulleidfaoedd adeiladu cartref i ddraenogod ac i rannu'u lluniau gyda chi ar-lein, neu beth am redeg ymgyrch ail gartrefu gyda'ch cartref cŵn lleol.

1

## Crannog (2018) Dim tystysgrif

Myfyrdod tawel ar garedigrwydd yng ngwyneb marwolaeth. Mae'r ffilm fer hon yn archwilio'r nerth a'r breuder sy'n rhan annatod o roi eich bywyd i ofalu am eraill.

**Archebu: Scottish Documentary Institute**

2

## Born Free (1965) U

Stori George a Joy Adamson ac Elsa, y cenau bach amddifad y maent yn ei mabwysiadu.

**Archebu: Park Circus**

3

## The Champions (2015) Dim tystysgrif

Stori ysbrydoledig y daeargwn pydew sy'n cael eu hachub o gylch ymladd Michael Vick, sef cyn seren tîm pêl-droed Americanaidd yr Atlanta Falcon, a'r rheiny sy'n eu hachub. Dyma stori am ail gyfle, gwaredigaeth a gobaith.

**Archebu: Firefly Films**

4

## Black Fish (2013) 15

Ffilm ddogfen sy'n archwilio pwnc dadleuol caethiwo morfilod danheddog, a'r sgil effeithiau peryglus sydd i bobl a'r morfilod.

**Archebu: Dogwoof**

5

## Eyes of the Orangutan (2021) Dim tystysgrif

Gan yr un stiwdio a gynhyrchodd 'Ivory Game' a 'Sea of Shadows' daw ffilm ddogfen newydd a phwerus. Mae'r ffilm yn cymryd golwg cyfareddol ar un o elfennau mwyaf pryderus twristiaeth bywyd gwyllt cyfoes, ynghyd â dathlu un o'n perthnasoedd agosaf o'r byd naturiol – yr orangwtan.

**Archebu: events@bos-uk.org**

## 1 73 Cows (2018) Dim tystysgrif

Mae ffermwr cig eidion yn brwydro a'i gydwybod bob tro mae'n mynd â'i wartheg i'r lladd-dy, ac yn gwneud penderfyniad eithriadol.

**Archebu: Lockwood Film**

## 2 Honeyland (2019) 12A

Mae'r helwraig gwenyn olaf yn Ewrop yn ceisio achub y gwenyn a sicrhau bod trefn natur yn parhau yn Honeyland. Pan ddaw deulu o wenynwyr nomadaidd i'w hardal mae ei bywoliaeth mewn perygl.

**Archebu: Dogwoof**

## 3 The Biggest Little Farm (2018) PG

Mae'r dogfennwr John Chester a'i wraig Molly yn mynd ati i ddatblygu fferm gynaliadwy ar 200 erw y tu allan i Los Angeles.

**Archebu: Parkland Entertainment**

## 4 Luzzo (2021) 15

To support his wife and child, a Maltese fisherman enters the world of black market fishing.

**Archebu: Pecadillo Pictures**

# Ffermio Ecogyfeillgar

*Ffilmiau sy'n archwilio technegau ffermio chwyldroadol. O'r ffermwyr cig eidion sydd wedi mynd yn figan yn y DU i ffermio cynaliadwy yn LA.*



**Delwedd:** © Biggest Little Farm - Parkland Pictures

## Syniadau gweithgareddau:

Beth am wahodd eich cynulleidfaoedd i gymryd rhan yng ngweithgareddau addysg Into Film? Mae ganddyn nhw bob math o adnoddau sy'n ymwneud â'r amgylchfyd, gan gynnwys **the Biggest Little Farm**. Beth am gynnig cymhelliad 'siopa'n lleol' mewn partneriaeth â siopau neu farchnadoedd lleol? Neu gynnal siopau diwastraff dros dro?

# Dynoliaeth a Natur

*Cymerwch olwg ar effaith weithgareddau fodau dynol ar ein byd, a sut mae'n goroesiad yn holl ddibynnol ar y blaned. O ganolfannau ailgylchu Tsiena i blanhigion iachaol cysegredig De America.*

## 1 Becoming Cousteau (2021) 12A

Trosolwg o fywyd, angerdd, llwyddiannau a thrasiedïau y fforiwr ac amgylcheddwr enwog Jacques Cousteau, gydag archif o waith sydd newydd ei adfer.

**Archebu: Dogwoof**

## 2 Fashion Reimagined (2023) 12

Mae'r dylunydd ffasiwn Amy Powney ar frig ei gyrfa, ond mae arferion gwastraffus ei diwydiant yn peri gofid iddi. Dilynwch hi ar ei siwrnai fyd-eang i greu casgliad cynaliadwy.

**Archebu: Met Films**

## 3 The Last Safari (2013) Dim tystysgrif

Mae Elizabeth L Gilbert y ffoto-newyddiadures arobryn yn mynd ar daith fythgofiadwy drwy bellafoedd Affrica i ailgysylltu a'r bobl o'r llwythau y bu'n dogfennu degawd ynghynt.

**Archebu: AKJAK**

## 4 FernGully (1992) U

Mae trigolion hudolus coedwig law yn brwydro i achub eu cartref, sydd dan fygythiad cwmni torri coed dinistriol o'r enw Hexxus.

**Archebu: Park Circus**

## 5 Maxima (2019) 15

*Yn wyneb bygythiadau, trais ac erlyniad troseddol, mae Máxima Acuña yn brwydro'n ddiflino yn erbyn gormesu pobl frodorol, i warchod adnoddau amgylcheddol amhrisiadwy.*

**Archebu: Stand with Maxima**



**Delwedd** © Maxima, Stand with Maxima

## Syniadau gweithgareddau:

Rhowch her i'ch cynulleidfa - newid un cynnyrch plastig am fersiwn ecogyfeillgar a rhannu eu profiad gyda chi ar-lein. Neu beth am hyrwyddo cyrsiau ar-lein am ddim ar bynciau megis mudo a ffoaduriaid hinsawdd i'r National Geographic. Mae adnodd ar gyfer Stand with Maxima hefyd ar gael.

1 **Koyaanisqatsi (1982)** U

Casgliad o luniau arbennig o ffenomenau, heb stori gonfensiynol. Mae'r ffilm yn canolbwyntio ar natur, dynoliaeth a'r berthynas rhyngddynt.

**Archebu: Park Circus**

2 **Home (2009)** 12A

Mae 'Home', sy'n cynnwys lluniau o'r awyr o 54 gwlad, yn dangos sut mae holl broblemau'r Ddaear yn gydgysylltiol.

**Archebu: Filmbank**

3 **Fire of Love (2022)** PG

Stori serch anhygoel y gwyddonwyr anturus Ffrengig, Katia a Maurice Krafft. Cwpl a dreuliodd eu hamser yn creu'r ffilmiau mwyaf anhygoel erioed o'u hoff beth: llosgfynyddoedd.

**Archebu: Dogwoof**

4 **The Hellstorm Chronicle (1971)** A

Casgliad o ffilmiau byrion sy'n archwilio bywyd anifeiliaid, planhigion a thrychfilod. Mwynhewch dechnegau ffilmio sy'n torri tir newydd a sinematograffi microsgopig a thanddwr.

**Archebu: Park Circus**

5 **Deep Sea (2023)** Dim tystysgrif

Mae Shenxiu wedi teimlo tristwch mawr ers i'w mam ei gadael. Mae storm yn mynd â hi i fyd breuddwydiol yn llawn lliw. Dan arweiniad yr Hyjinx, a gyda'r cogydd tanddwr dyfeisgar Nanhe, mae hi'n cychwyn ar daith i ddod o hyd i gysur yn Llygad y Môr Dwfn.

**Archebu: Fortissimo Films**

**Delwedd ©** Deep Sea - Fortissimo Films

# Byd Natur

*Mwynhewch brydferthwch fyd natur ar y sgrin fawr, gyda ffotograffiaeth drawiadol a delweddau o'r awyr o'r Ddaear a'i drigolion.*



## Syniadau gweithgareddau:

Beth am gynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth neu ffilm gyda'ch cynulleidfaoedd, gyda gwobr ar gyfer y delweddau gorau o fyd natur?

Mae gan **Sol Cinema** hefyd gasgliad o ffilmiau amgylcheddol byrion y gallech chi eu dangos ar y cyd â *Power Trip: Fracking in the UK*.

# Cyllid

Os ydych chi wedi gwneud cais i'r Gronfa Arddangos Ffilmiau, efallai yr hoffech ystyried gynnwys rhai o gostau'r ffilmiau a gweithgareddau yn eich rhaglen.

Gweler rhestr lawn o deitlau **yma**.



# Marketing

Rhannwch eich rhaglen gyda ni @**Filmhubwales** gan ddefnyddio'r hashnodau **#GreenBigScreen #BFIFAN**

# Training

Fel rhan o Raglen Sgrin Gynaliadwy y BFI, mae FAN yn cydweithio â Julie's Bicycle ar amrywiaeth o adnoddau a digwyddiadau. Mae gennym ni hefyd ambell i adnodd amgylcheddol ychwanegol ar ein gwefan, gan gynnwys ein sesiwn argyfwng hinsawdd gyda Chynnal Cymru.

# Adnoddau

- Julies Bicycle
- Business Declares Climate Emergency
- ICO greening Cinema toolkit
- Into Film
- Cynnal Cymru
- **Darganfyddwch ragor ar ein gwefan.**

**Delwedd ©** Fire of Love - Dogwoof

# Ysbrydoliaeth ychwanegol

- Climate Care Berlin
- Climate Crisis Film Festival
- Environmental Film Festival in the Nation's Capital (DCEFF)
- Greenpeace Festival
- Human Rights Film Festival
- International Wildlife Film Festival
- Jackson Wild
- Mountain Film
- Oceans Film Festival
- Open City Docs Fest
- Planet in Focus
- San Francisco Green Film Festival
- UK Green Film Festival
- Welsh Government's Wales Climate week
- Wiki Environmental Films List
- Wild and Scenic Film Festival
- Wildscreen




# Enghreifftiau o ganolfannau ecogyfeillgar:

- Lewes Depot
- Scott Cinemas
- HOME
- Curzon

# Cysylltwch â ni

**Canolfan Ffilm Cymru, Chapter, Heol Y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE**

- **Hana Lewis, Rheolwr Strategol y Ganolfan**
  hana@filmhubwales.org | 02920 353 740
- **Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu**
  lisa@filmhubwales.org | 02920 311067
- **Sarah Chew, Marketing and Outreach Officer**
  sarah@filmhubwales.org | 02920 311057



**Delwedd** © Hands On - Iphigénie Marcoux-Fortier